## Uned 1

## Diwydiant Iechyd Anifeiliaid

### Taflen Wybodaeth

Mae anifeiliaid yn nodwedd o ffermydd yn y DU, gydag unedau'n cynyddu mewn maint. Mae iechyd a lles yr anifeiliaid hyn o bwys mawr i bawb sydd yn y gadwyn fwyd, o'r cynhyrchydd i'r cwsmer.

Mae'n dilyn felly, fod y Diwydiant Gofal Iechyd Anifeiliaid yn fawr a chymhleth. Mae'n cynnwys:

- Adrannau Iechyd Anifeiliaid y Llywodraeth
- Y Diwydiant Fferyllol
- Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd.

### 1. Adrannau Iechyd Anifeiliaid y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth yn gyfrifol am:

- Raglenni Iechyd y Wladwriaeth.
- Gynlluniau Dileu Clefydau
- Atal Clefydau Hysbysadwy
- Ddiogelwch Bwyd
- Ddiagnosis Clefydau mewn Labordai Milfeddygol

### 2. Y Diwydiant Fferyllol

Mae angen defnyddio meddyginiaethau anifail i atal a rheoli clefydau.

Mae'n cynnwys:

- Brechlynnau
- Antibiotigau
- Drensh llyngyr iau a'r stumog
- Dipiau defaid
- Diheintyddion
- Hormonau Ffrwythlondeb
- Meddyginiaeth mewn bwyd

### 3. Gwasanaethau Proffesiynol

Mae'r canlynol yn ymwneud â gofal iechyd anifeiliaid ar gyfnod arbennig:

- Ffermwyr
- Milfeddygon
- Nyrsys Milfeddygol
- Trimwyr Traed
- Ymgynghorwyr o Gwmnïau Fferyllol
- Swyddogion Ymchwil

# Hanes Diwydiant Gofal Iechyd Anifeiliaid

## O Ffariers i Filfeddygon

### Newidiadau mewn triniaeth feddygol

Gellir olrhain bodolaeth pedolau haearn ceffyl ym Mhrydain cyn yr Ymosodiad Rhufeinig. Roedd gwybodaeth y Ffarier yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r grefft o bedoli'n unig. Roedd yn cynnwys anatomi, cyflwr, rheoli a chlefydau'n ymwneud â'r ceffyl. Roedd y Ffarier yn gwaedu, trin clwyfau ac anafiadau, diagnosio afiechyd ac yn cynhyrchu meddyginiaethau ar gyfer y driniaeth.

Mae nifer o bobl yn dal i alw'r Milfeddyg yn 'Ffarier'.

Yn 1791, sefydlwyd Coleg Milfeddygol, Llundain er mwyn cael gwell dealltwriaeth o hwsmonaeth anifeiliaid a chlefydau.

### Offer hanesyddol y grefft!

### Fflaim - offeryn gwaedu!



**Mae'r lluniau ar y dudalen hon wedi eu cymryd o Amgueddfa Hanes Milfeddygaeth**

**http://www.rvc.ac.uk/AboutUs/Services/Museums/Museum.cfm#tour**

Roedd y **fflaim** yn offeryn â llafn trionglog, miniog oedd yn gwneud toriad yn y croen neu'r wythïen wrth ei ergydio gyda phastwn bychan, a elwid yn ffon waed. Fel arfer, roedd gan yr offeryn hwn ddau neu dri llafn fflaim â thrwch gwahanol, wedi eu graddio yn ôl maint, oedd yn plygu ochr yn ochr i mewn i orchudd. Gallai'r set gynnwys lawnsed (llafn pigfain miniog).

### Meddyginiaethau Cynnar ar gyfer Anifeiliaid

Roedd nifer o ryseitiau a meddyginiaethau ar gael i wella annwyd, peswch a ffliw mewn anifeiliaid fferm, yn cynnwys y ceffyl.

### O Ddos Cartref i Antibiotigau

Mae antibiotigau wedi chwyldroi gofal anifeiliaid yn yr 20fed ganrif.

Penisilin oedd yr antibiotig cyntaf, a ddarganfuwyd gan Alexander Fleming yn 1929, a datblygwyd prosesau eplesiad ar raddfa fawr er mwyn cynhyrchu antibiotigau.

### Meddyginiaethau Ataliol

Gyda chynnydd mewn ymchwil, rhoddwyd pwyslais ar atal afiechydon mewn anifeiliaid.  Gwelwyd hyn fel ffermio gwell a mwy buddiol.

**Meddyginiaethau Homeopathi**

Homeopathi yw gwella afiechydon anifail trwy ddefnyddio meddyginiaethau naturiol. Mae'n cael ei ddefnyddio'n aml mewn sefyllfaoedd organig.

**O Wella Clefyd i'w Atal trwy Gynllunio Iechyd**

Mae Cynllunio Iechyd Fferm yn help i atal clefydau a gwella perfformiadau anifeiliaid. Trwy gydweithio'n agos â Milfeddyg neu ymgynghorydd arall, gosodir targedau ar gyfer iechyd a lles yr anifail, ac ysgrifennir i lawr y camau angenrheidiol i gyrraedd y targedau hyn.  Mae'r defnydd o frechlynnau fel mesur ataliol yn rhan allweddol o Gynllunio Iechyd.

**Y Pwysigrwydd Cynyddol mewn Lles Anifeiliaid Fferm**

Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, mae mwy a mwy o bwyslais o fewn cymdeithas ar faterion lles anifeiliaid. O ganlyniad, bu datblygiad sylweddol mewn monitro ffermydd yn nhermau cynlluniau gwarant fferm a ysgogwyd gan Ddeddf Diogelwch Bwyd (1990).

**Enghreifftiau o Gynlluniau Gwarant Fferm**:

- ☑ *FAWL* - Gwarant Anifeiliaid Fferm Cymru (*Farm Assured Welsh Livestock*)
- ☑ *NDFAS* - Cynllun Gwarant Ffermydd Llaeth Cenedlaethol (*National Dairy Farm Assurance Scheme*)
- ☑ *FABBL* - Gwarant Fferm Cig Oen a Chig Eidion Prydeinig/*Farm Assured British Beef and Lamb*
- ☑ *ABM* - Gwarant Cigoedd Prydeinig/*Assured British Meats*